

RHEOLWR LLWYFAN CYNORTHWYOL (Y LLYFR)

Mae Theatr y Sherman yn cynhyrchu fersiwn deithiol newydd o Macbeth a fydd yn ymarfer ac yn agor yn Theatr y Sherman, Caerdydd, ac yna'n teithio i dri lleoliad partner (Theatr Torch – Aberdaugleddau, Theatr Clwyd – yr Wyddgrug, a Pontio – Bangor).

Mae **Macbeth [re]imagined** yn rhan o fenter Craidd Cyngor Celfyddydau Cymru i brif-ffrydio cynrychiolaeth gyda ac ar gyfer pobl Fyddar, anabl a niwrowahanol ledled Cymru. Mae hefyd yn ceisio gyrru newid cadarnhaol yn y sefydliadau partner dan sylw, yn ogystal ag yn sector ehangach y theatr.

Mae'r cynhyrchiad yn cynnwys cast o 8.

DYDDIADAU

Dechrau Ymarferion	w/d 18 Ionawr
Ymarferion Technegol	w/d 1 a 8 Mawrth
Rhaiddangosiad Cyntaf	Nos Wener 12 Mawrth
Noson i'r Wasg	Nos Fawrth 16 Mawrth
Perfformiad Terfynol yn y Sherman	Nos Sadwrn 27 Mawrth

DYDDIADAU TEITHIO

Theatr Torch	w/d 5 a 12 Ebrill (perfformiad cyntaf 8 Ebrill)
Theatr Clwyd	w/d 19 a 26 Ebrill (perfformiad cyntaf 22 Ebrill)
Theatr Pontio	w/d 3 a 10 Mai

Y TÎM CREADIGOL

Cyfarwyddwr	Francesca Goodridge
Golygfeydd a Deialog Ychwanegol	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Cyswllt	Alice Eklund
Dramatwrg	Rebecca Jade Hammond
Cyfarwyddwr Symud	Jess Williams
Cynllunydd Set a Gwisgoedd	Hayley Grindle
Cynllunydd Goleuo	Ryan Joseph Stafford
Cynllunydd Fideo a Chapsiynau Creadigol	Ben Glover
Cyfansoddwr	Lloyd Coleman
Cynllunydd Sain	Russell Ditchfield

TÎM TEITHIO

Rheolwr Llwyfan y Cwmni
Dirprwy Reolwr Llwyfan
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol
Rheolwr Llwyfan Technegol
Cynorthwyol (Pwyslais Sain)
Pennaeth Fideo
Gweithredwr Capsiynau
Pennaeth Sain
Cynorthwydd Technegol
Rheolwr Gwisgoedd

Manylion y Rôl:

Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol yn cefnogi'r ymarferion drwy gyrchu a chreu propiau yn ôl yr angen o'r rhestr bropiau. Cynnal y propiau a chychu propiau rhedeg yn yr ystafell ymarfer, ar y llwyfan ac ar daith.

Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol hefyd yn cefnogi'r ymarferion drwy gyflenwi ar gyfer y Dirprwy Rheolwr Llwyfan yn ôl yr angen, gan redeg propiau a dodrefn wrth fynd drwy'r sioe a chadw'r ystafell ymarfer yn lân ac yn dactylus. Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol yn cefnogi'r broses ymarfer gyda marciau ac unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

Yn ystod perfformiadau ac ymarferion technegol a gwisgoedd, y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol sy'n gyfrifol am ragosod yr holl bropiau, cynnal gwiriad galw propiau, a darparu ciwiau yn ôl yr angen o'r rhestr redeg. Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol yn gweithio'n agos gyda'r criw llwyfan i sicrhau bod y newidiadau golygfeydd yn cael eu cwblhau'n briodol.

Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol (Y Llyfr) yn dysgu sut i alw'r sioe drwy gysgodi'r Dirprwy Rheolwr Llwyfan yn ystod y rhediad yn y Sherman. Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol (Y Llyfr) yn galw'r sioe yn absenoldeb annhebygol y Dirprwy Rheolwr Llwyfan. Yn yr achos hwn, bydd y Cynorthwydd Technegol yn cyflenwi plot sioe'r Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol.

Y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol sy'n gyfrifol am osod ochrau'r llwyfan ym mhob lleoliad ac am bacio'r holl bropiau a dodrefn mewn modd sy'n sicrhau y byddant yn teithio'n ddiogel i'r lleoliad nesaf.

Y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol sy'n gyfrifol am gynhyrchu beibl propiau'r sioe.

Mae Macbeth yn sioe Sylfaenol Llyfr Gwyrdd y Theatr ac mae angen i'r holl bropiau gael eu cyrchu gyda hyn mewn cof; nid yw profiad mewn Llyfr Gwyrdd yn hanfodol, a bydd cefnogaeth ac arweiniad yn cael eu rhoi yn ystod y broses ymarfer.

Bydd y Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol (Y Llyfr) yn cadw at holl bolisiâu a gweithdrefnau'r Sherman a Rheolwr Llwyfan y Cwmni fydd eu rheolwr llinell.

Profiad Hanfodol

- Profiad theatrig mewn Rheoli Llwyfan.
- Profiad o weithio mewn theatr sy'n cynhyrchu gwaith.
- Dealltwriaeth ymarferol o gytundebau undeb (Equity, MU, BECTU) a'u goblygiadau ehangach yn y broses gynhyrchu.
- Sgiliau rheoli amser a threfnu amlwg.
- Pan fo'r rôl yn gofyn am hynny, parodrwydd i gynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel briodol.
- Profiad o weithio heb oruchwyliaeth, gan ddefnyddio eich menter eich hunan.

Sgiliau Hanfodol

- Sgiliau cydweithio cryf ac wedi arfer gweithio gydag ystod eang o gydweithwyr creadigol/cynhyrchu mewn amgylchedd cynhyrchu prysur.
- Dylech fod yn unigolyn hyderus, cyfeillgar a rhagweithiol gyda sgiliau pobl ardderchog a hanes cryf o weithio i amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Y gallu i weithio ar draws sawl tasg ar yr un pryd, gyda'r gallu i flaenoriaethu eich llwyth gwaith yn effeithiol.
- Llythrennedd cyfrifiadurol a hyder gyda Microsoft Office.

Manylion Ffi

Bydd y contract yn gcontract Theatr Gymorthdaledig Equity/UKT, rydyn ni'n lleoliad MRSL 2, ac rydyn ni'n aros i glywed cyfraddau eleni.